



# **Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Y Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad Cymeradwyo</b>	<b>25/09/18</b>
<b>Dyddiad Rhoi ar Waith</b>	<b>25/09/18</b>
<b>Perchennog</b>	<b>SV</b>
<b>Dyddiad Adolygu</b>	<b>01/06/26</b>

# Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
f1.2	25.09.18	Cyngor Llawn	Newidiadau yn unol â Rheoliadau CPLIL (Diwygio) 2018 i aelodau gohiriedig sy'n cael mynediad at eu pensiynau heb ganiatâd cyn-gyflogwyr gyda gostyngiadau actiwaraidd sy'n cael eu cymhwyso yn ôl yr angen
f1.3	01.02.22	D Kennedy	Ail fformatio
f1.4	01/06/2024	Sophie Vaughan	Polisi wedi'i wirio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â disgresiynau gofynnol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

# Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Cynnwys

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	3
Beth yw'r Polisi?	4
Polisi Disgresiwn	4
Y Broses Bandio Cyfraniadau	4
Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 30(6) 30(8) - Ymddeoliad Hyblyg	5
Datganiad Polisi	5
Rheoliadau CPLIL (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2013 Rheoliad 30(5), 30(8), 30A(3) – Talu Buddiannau Pensiwn yn Gynnar ar Gais y Gweithiwr.	6
Datganiad Polisi	6
Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 17 (1) - Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a Rennir	6
Datganiad Polisi	6
Rheoliadau Diwygiedig CPLIL (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2018 Atodlen 2 – Rheol 85 Mlynedd	7
Datganiad Polisi	7
Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 100(6) – Trosglwyddo Hawliau Pensiwn	7
Datganiad Polisi	7
Rheoliadau CPLIL 2013, Rheoliad 31 - Dyfarnu Pensiwn Ychwanegol	8
Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 16(2)(e) a (4)(f) - Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol a Rennir	8

# Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Beth yw'r Polisi?

### Polisi Disgresiwn

Mae rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn mynnu bod pob cyflogwr, o dan Reoliad 60(1) o Reoliadau (Gweinyddol) CPLIL 2013 a Rheoliad 66(1) o Reoliadau (Gweinyddol) CPLIL 2007 yn:

- dosbarthu datganiad polisi ysgrifenedig ar sut y bydd yn ymarfer y disgresiwn amrywiol a ddarperir gan y cynllun,
- yn ei adolygu'n barhaus ac
- yn ei adolygu yn ôl yr angen.

Mae'r ddogfen hon yn ateb y gofynion hyn ac yn datgan gofynion y rheoliad a phenderfyniadau'r sefydliad ynglŷn â'r rhain.

Gall y disgresiwn hwn newid, naill ai ar sail unrhyw newid yn y rheoliadau neu yn unol ag ystyriaeth briodol gan y cyngor. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw hawliau dan gontract.

### Y Broses Bandio Cyfraniadau

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn pennu band cyfrannu cyflog pensiynadwy gweithiwr ar 1 Ebrill bob blwyddyn yn unol â Rheoliad 9(3) o Reoliadau CPLIL 2013.

Bob mis Ebrill caiff bandiau cyfraniadau eu dyrannu fel a ganlyn:

- Bydd dyraniad band Gweithwyr Llanw / Achlysurol presennol yn seiliedig ar eu henillion pensiynadwy gwirioneddol o'r flwyddyn ariannol flaenorol.
- Bydd dyraniadau gweithwyr presennol yn seiliedig ar eu cyflog contract ar 1 Ebrill a bydd yn cynnwys oriau ychwanegol a weithiwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Caiff hwn ei gyfrifo ar sail flynyddol i staff sydd heb roi blwyddyn gyfan o wasanaeth.
- Bydd dyraniadau dechreuwyr newydd ar ôl Ebrill yn seiliedig ar eu cyflog contract a bydd dyraniadau staff llanw / achlysurol yn seiliedig ar y band isaf. (sef 5.5% ar hyn o bryd)
- Bydd cyfraniadau gweithwyr sy'n cymryd rhan mewn cynllun ildio cyflog nad yw'n cael ei gydnabod gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (e.e. Cynlluniau Ceir) yn cael eu cyfrifo ar sail eu cyflog gostyngedig. Ni effeithir ar Dalebau Gofal Plant, Cynlluniau Ildio Cyflog Costau

## **Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a Rennir na Beicio i'r Gwaith gan nad ydynt yn cael eu cydnabod gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar hyn o bryd.

Gellir gweld manylion canrannau ac ystodau bandiau cyflog sy'n pennu'r cyfraniadau pensiwn a delir gan aelodau ar wefan Pensiynau Clwyd.

### **Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 30(6) 30(8) - Ymddeoliad Hyblyg**

Os yw aelod o'r cynllun pensiwn wedi cyrraedd 55 oed a, gyda chaniatâd ei gyflogwr/chyflogwr, wedi gostwng nifer ei (h)oriau gwaith neu ei (g)raddfa gyflog, gall ef/hi wneud cais ysgrifenedig i'r Gronfa Bensiwn i dderbyn ei holl fuddiannau neu ran ohonynt o dan y Rheoliadau Buddiannau. Fodd bynnag, ni ellir talu'r buddiannau heb ganiatâd y cyflogwr.

Os yw'r buddiannau wedi'u gostwng yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan Actiwari'r Llywodraeth, gall y cyflogwr gytuno i hepgor gostyngiad tebyg yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

### **Datganiad Polisi**

Caiff ceisiadau am ymddeoliad hyblyg gan weithwyr eu hystyried fesul achos ar eu rhinweddau eu hunain ar ôl ystyried yn llawn yr holl oblygiadau ariannol a'r goblygiadau o ran darparu gwasanaeth. Dylai'r gostyngiad fod o leiaf 20% o'u cyflog presennol ac mae'n rhaid i'r gweithiwr ymddeol yn llawn cyn pen 2 flynedd ar ôl cymryd ymddeoliad hyblyg.

Mae gan Sir Ddinbych ddisgresiwn i hepgor gostyngiadau actiwaraid gweithiwr yn llawn neu'n rhannol. Os yw'r cais yn golygu costau cyfalaf i'r cyflogwr nid yw'n debygol o'i ganiatáu oni bai bod modd i'r costau hyn gael eu gosod yn erbyn arbedion ariannol. Penderfynir ar bob achos yn ôl ei rinweddau unigol.

Nid yw hyn yn rhagwahardd gweithwyr iau na 55 oed sy'n gwneud cais am ymddeoliad hyblyg ond heb dderbyn eu buddiannau ymddeol.

**Adolygiad** – Gall y cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.

## **Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

### **Rheoliadau CPLIL (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2013**

#### **Rheoliad 30(5), 30(8), 30A(3) – Talu Buddiannau Pensiwn yn Gynnar ar Gais y Gweithiwr.**

Pan fo aelod o'r cynllun pensiwn yn gadael ei swydd cyn bod ganddo/ganddi hawl i daliadau buddiannau ymddeol ar unwaith, ar ôl iddo/iddi gyrraedd 55 oed gall ef/hi ddewis derbyn y taliadau ar unwaith heb ganiatâd y cyflogwr, a bydd eu buddiannau ymddeol yndestun gostyngiad actiwaraid.

Os yw'r buddiannau wedi'u gostwng yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan Actiwari'r Llywodraeth, gall y cyflogwr gytuno i hepgor gostyngiad tebyg yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar sail dosturiol .

Gall y cyngor ganiatáu cais am daliad cynnar pensiwn salwch haen 3 gohiriedig pan fydd y gweithiwr rhwng 55 oed a 60 oed o dan reoliad 30A(3).

#### **Datganiad Polisi**

Polisi Cyngor Sir Ddinbych yw ystyried pob achos o hepgor gostyngiad mewn buddiannau ar ei rinweddau ei hun os oes rhesymau cymhellol a/neu dosturiol dros wneud hynny. Fel arall, bydd gostyngiadau actiwaraid yn berthnasol i fuddiannau pensiwn cronedig y person er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod y buddiannau yn cael eu tynnu allan yn gynnar yn wirfoddol.

**Adolygiad** – Gall y cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.

### **Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 17 (1) - Cyfraniadau Gwirfoddol**

#### **Ychwanegol a Rennir**

Os yw awdurdod cyflogi yr aelod yn cyfrannu at y cynllun, caiff y trefniant cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ei adnabod fel trefniadau cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol costau a rennir a gelwir y cyfraniadau yn "SCAVCs".

#### **Datganiad Polisi**

Nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi unrhyw gyfraniadau ychwanegol at gynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol costau a rennir.

**Adolygiad** – Gall y cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.

## **Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

### **Rheoliadau Diwygiedig CPLIL (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2018 Atodlen 2 – Rheol 85 Mlynedd**

Mae'r "Rheol 85 Mlynedd" yn berthnasol pan fo oedran aelod a hyd ei aelodaeth yn y cynllun presennol neu gynlluniau blaenorol yndod i gyfanswm o 85 mlynedd neu fwy. Gellir gweithredu'r rheol hon gydag aelodau unigol cyn iddynt gyrraedd 60 oed. Mewn achosion o Ymddeoliad Cynnar, gall y cyflogwr hepgor y gost yn llawn neu'n rhannol.

Mae'n sicrhau bod aelodau rhwng 55 oed a 59 oed sy'n dewis cymryd ymddeoliad cynnar o dan Reoliadau 1997 a 2007 hefyd yn gallu elwa o'r 'rheol 85 mlynedd' gyda chaniatâd eu cyflogwr.

#### **Datganiad Polisi**

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych ddisgresiwn i hepgor gostyngiadau'n llawn neu'n rhannol a bydd yn ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun gydag achos busnes llawn yn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth, y Pennaeth Cyllid/Adran 151 a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl.

**Adolygiad** – Gall y cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.

### **Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 100(6) – Trosglwyddo Hawliau Pensiwn**

Os yw aelod o'r cynllun yn dymuno trosglwyddo buddiannau pensiwn blaenorol i'r CPLIL, rhaid iddo/iddi ddewis gwneud hynny cyn pen 12 mis ar ôl ymuno â'r CPLIL neu gyfnod hirach os yw'r cyflogwr yn caniatáu.

#### **Datganiad Polisi**

Ni fydd Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried ymestyn y terfyn amser i drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol os yw dros 12 mis ar ôl ymuno.

## **Polisi - Disgresiwn A Bandio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

### **Rheoliadau CPLIL 2013, Rheoliad 31 - Dyfarnu Pensiwn Ychwanegol**

Mae'r rheoliad hwn yn galluogi cyflogwr i benderfynu dyfarnu pensiwn ychwanegol i aelod o uchafswm o £6500 y flwyddyn (Ar 01/04/14, yn cynyddu'n flynyddol) yn daladwy o'r un dyddiad a bydd eu pensiwn yn daladwy o dan unrhyw ddarpariaethau eraill y Rheoliadau.

Gall y Cyngor ychwanegu gwasanaeth aelod a wneir trwy ddiswyddiad neu effeithlonrwydd busnes o fewn 6 mis i roi'r gorau i fod yn aelod gweithredol.

#### **Datganiad Polisi**

Ni fydd Cyngor Sir Ddinbych yn dyfarnu pensiwn ychwanegol na gwasanaeth ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n gadael.

**Adolygiad** – Gall y cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.

### **Rheoliadau CPLIL 2013 Rheoliad 16(2)(e) a (4)(f) - Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol a Rennir**

Mae'r rheoliad hwn yn galluogi'r cyflogwr i gyfrannu tuag at gost os fydd y gweithiwr yn prynu cyfraniad pensiwn ychwanegol.

#### **Datganiad Polisi**

Ni fydd Cyngor Sir Ddinbych yn cyfrannu at gost y gweithiwr yn prynu pensiwn ychwanegol.

**Adolygiad** – Gall y cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.